| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 14 / 11 / 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Cynghorydd Jason Mclellan, Arweinydd, Gary Williams, Cyfardwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfardwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Penodi Cyfarwyddwr - Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â phenodi cyfarwyddwr i Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig (DLL) gan y Cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Testun ym Gofyn i'r Cyngor benodi cyfarwyddwr newydd i Fwrdd Cyfarwyddwyr DLL yn dilyn marwolaeth drist y cyn Gynghorydd Peter Prendergast

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor yn penodi Cynghorydd nad yw'n aelod o'r Cabinet i fod yn Gyfarwyddwr DLL

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Ar 30 Mai 2019 cymeradwyodd y Cyngor greu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol Cyfyngedig trwy Warant nid er elw fel model darparu amgen ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden ar ran y Cyngor. Enw'r cwmni hwn yw Hamdden Sir

Ddinbych Cyfyngedig (DLL). Y Cyngor yw'r unig berchennog ac aelod o DLL. Mae Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni yn darparu mai mater i'r Cyngor benderfynu arno yw penodi Cyfarwyddwyr i'r Bwrdd.

4.2. Bwrdd y Cyfarwyddwyr (y Bwrdd) sy'n gyfrifol am redeg y cwmni. Mae cyfansoddiad y Bwrdd ar hyn o bryd fel a ganlyn

• Rheolwr Gyfarwyddwr – Jamie Groves,

• Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau, y Cynghorydd Rhys Thomas

• Aelod Arweiniol dros Addysg, Plant a Theuluoedd, y Cynghorydd Gill German

• Cyfarwyddwr Annibynnol x 2 (Paul McGrady a Sian Rodgers),

• Aelod etholedig heb fod yn Gabinet - gwag,

• Aelod o'r UDA, (Nicola Stubbins)

4.3. Yn dilyn marwolaeth drist y Cyng. Peter Prendergast mae sedd ar y Bwrdd i gael ei meddiannu gan aelod etholedig nad yw'n aelod o'r cabinet yn wag. Felly gofynnir i'r Cyngor benodi aelod etholedig nad yw'n aelod o'r cabinet i ymgymryd â'r rôl hon.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Nid yw'r adroddiad hwn yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd yn helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid cyn creu DLL.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn, mae'n bwysig bod trefniadau llywodraethu cryf yn cael eu cynnal i helpu i leihau risgiau wrth symud ymlaen. Cefnogir yr adroddiad yn llawn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg na fydd cario swyddi gweigion ar y Bwrdd yn darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ddigonol i DLL.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

11.2. Erthygl 13 Erthyglau Cymdeithas Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig